



Cronfa Bensiwn
GWYNEDD
Pension Fund

Newyddlen



Croeso i'r diweddariad diweddaraf gan Gronfa Bensiwn Gwynedd. Mae'r newyddlen hon yn cynnwys gwybodaeth bwysig am gyfraddau cyfrannu, codiadau pensiwn, eich Datganiad Buddion Blynnyddol, diogelwch ar-lein a digwyddiadau ymwybyddiaeth pensiynau sydd ar ddod.

Faint Ydw i'n ei Dalu?

Os ydych yn aelod actif o'r **Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL)**, rydych yn talu cyfraniadau i'r cynllun. Mae'r cyfraniadau hyn yn elwa o **ryddhad treth**, gan helpu i leihau faint o dreth incwm rydych yn ei dalu.

Mae eich cyfradd gyfrannu yn seiliedig ar eich tâl pensiynadwy ac fel arfer mae rhwng **5.5% a 12.5%**.

Adolygiad Cyfraniadau Blynnyddol

Bob mis Ebrill, mae eich cyflogwr yn adolygu'r gyfradd gyfrannu sy'n berthnasol i bob un o'ch contractau cyflogaeth ac yn ei haddasu os oes angen.

Mae'r bandiau cyflog sy'n weithredol o **1 Ebrill 2026** ar gael ar ein gwefan a thrwy eich cyflogwr.

Yr Adran 50/50

Os ydych yn profi anawsterau ariannol dros dro, mae'r CPLIL yn cynnig yr **adran 50/50**.

Mae'r opsiwn hwn yn eich galluogi i:

- ✓ Dalu hanner eich cyfraniadau pensiwn arferol
- ✓ Cronni hanner eich buddion pensiwn arferol
- ✓ Aros yn y cynllun yn hytrach nag optio allan yn llwyr

Gall yr adran 50/50 fod yn ateb defnyddiol yn y tymor byr tra'n cynnal amddiffyniad pensiwn gwerthfawr.

Cynnydd Pensiwn 2026

Bob mis Ebrill, caiff buddion y CPLIL eu hailbrisio yn unol â'r **Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI)**. Mae hyn yn berthnasol i:

- Bensiynau gohiriedig
- Pensiynau sy'n cael eu talu
- Y pensiwn Enillion Gyrfa Cyfartalog wedi'u Hailbrisio a gronnwyd gan aelodau actif

Ar gyfer **Ebrill 2026**, y cynnydd CPI a gymhwyswyd i fuddion oedd: **3.8%**



Mae'r cynnydd hwn yn seiliedig ar chwyddiant dros y cyfnod o 12 mis a ddaeth i ben ym mis Medi 2025.

Mae Eich Datganiad Buddion Blynyddol Ar-lein

Mae eich **Datganiad Buddion Blynyddol** diweddaraf bellach ar gael drwy eich cyfrif **Fy Mhensiwn Ar-lein**.

Gallwch gael mynediad at eich datganiad yn yr adran "**Dogfennau**".

Aelodau Actif

Mae eich datganiad yn dangos gwerth eich pensiwn ar **31 Mawrth 2026**, ynghyd â'ch **Oedran Pensiwn Arferol (OPA)**.

Aelodau Gohiriedig


Mae eich datganiad yn dangos gwerth cyfredol eich pensiwn gohiriedig gan dybio y bydd yn cael ei gymryd ar eich OAP.

Gwylwch Eich Fideo Pensiwn Personol

Mae fideo personol pum munud hefyd ar gael drwy eich cyfrif **Fy Mhensiwn Ar-lein**.

Wedi'i deilwra'n benodol i'ch cofnod pensiwn, mae'r fideo yn:

- Esbonio'r brif wybodaeth yn eich datganiad
- Tynnu sylw at y ffigurau pwysicaf
- Eich helpu i ddeall eich buddion ymddeol yn y dyfodol



Gwella Mynediad a Thegwch yn y CPLIL

Mae'r Llywodraeth wedi cyflwyno newidiadau i'r CPLIL i'w wneud yn decach i bob aelod. Daeth y rhan fwyaf o'r newidiadau hyn i rym ar **1 Ebrill 2026**, gyda rhai gwelliannau'n cael eu cymhwyso'n ôl-weithredol i sicrhau bod aelodau cymwys yn derbyn y buddion y mae ganddynt hawl iddynt.

Mae'r newidiadau'n cwmpasu amrywiaeth o feysydd, gan gynnwys amddiffyniadau pensiwn, buddion goroeswyr a'r ffordd y cyfrifir rhai buddion pensiwn. Er na fydd pob newid yn effeithio ar bob aelod, gall rhai ohonynt gael effaith gadarnhaol ar eich buddion pensiwn nawr neu yn y dyfodol.

Os bydd unrhyw un o'r newidiadau hyn yn effeithio ar eich cofnod CPLIL, byddwn yn diweddarau eich buddion pensiwn yn unol â hynny ac yn cysylltu â chi os bydd angen unrhyw gamau gweithredu.

Am ragor o wybodaeth am y newidiadau a sut y gallent fod yn berthnasol i chi, mewngofnodwch i'ch cyfrif **Fy Mhensiwn Ar-lein** a darllenwch y wybodaeth sydd ar gael yn yr adran **Dogfennau**.

Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol (CGY) – Diweddariad Pwysig

Hoffem wneud aelodau CGY yn ymwybodol y bydd ein contract gyda **Clerical Medical** yn dod i ben ar **31 Awst 2026**.

O ganlyniad, bydd pob trefniant CGY yn trosglwyddo i'n darparwr newydd, **Legal & General**, o **1 Medi 2026**.

Os ydych yn aelod CGY, bydd gwybodaeth bellach am y newid hwn, gan gynnwys unrhyw gamau gweithredu sydd eu hangen, yn cael ei hanfon atoch yn fuan.

O ganlyniad, nid ydym bellach yn annog aelodau i ymuno â'r trefniant presennol, gan ei fod yn cau'n fuan.

Diolch am eich amynedd a'ch dealltwriaeth yn ystod y cyfnod pontio hwn.

Taliad CThEM i Rai Aelodau CPLIL sy'n Ennill Cyflog Isel

O fis **Awst 2026**, bydd CThEM yn cysylltu â phobl gymwys a allai fod â hawl i **Daliad Pensiwn Enillwyr Isel newydd**.

Mae'r taliad wedi'i anelu at enillwyr cyflog isel a gollodd ryddhad treth pensiwn oherwydd bod y CPLIL yn defnyddio trefniant tâl net.

Efallai y byddwch yn gymwys os oeddech yn talu cyfraniadau CPLIL o flwyddyn dreth **2024/25** ymlaen ond heb dderbyn rhyddhad treth oherwydd nad oeddech yn talu treth incwm.

Nid oes angen gwneud cais. Bydd CThEM yn cysylltu'n uniongyrchol ag aelodau cymwys drwy lythyr neu drwy eu Cyfrif Treth Personol gyda manylion am sut i dderbyn y taliad.

Byddwch yn wylidwrs o sgamiau: Ni fydd CThEM **byth** yn gofyn i chi drosglwyddo arian, na darparu Pin neu gyfrineiriau, er mwyn derbyn taliad.

Wythnos Ymwybyddiaeth Pensiynau 2026 (15–19 Medi 2026)

Mae Wythnos Ymwybyddiaeth Pensiynau yn dychwelyd ym mis Medi eleni, gan gynnig canllawiau ymarferol, gweminarau arbenigol ac adnoddau defnyddiol i helpu pobl i ddeall eu pensiwn yn well a chynllunio ar gyfer ymddeoliad.

Mae'r ymgyrch yn annog pawb i gymryd rhai camau syml, gan gynnwys: Gwirio cyfraniadau pensiwn, adolygu cynilion ymddeol, chwilio am gronfeydd pensiwn coll, diweddarau enwebiadau buddiolwyr a dysgu mwy am opsiynau ymddeol

Gyda biliynau o bunnoedd yn cael eu hamcangyfrif mewn pensiynau coll neu anghofiedig ledled y DU, gall dod o hyd i hen gronfeydd pensiwn roi hwb sylweddol i incwm ymddeol yn y dyfodol.

Gall cyfranogwyr gymryd rhan yn yr **Her Pensiynau**, sy'n cynnwys mynediad at weminarau byw ac ar-alw, canllawiau pensiwn, erthyglau, Cwestiynau Cyffredin ac offer cynllunio ar gyfer ymddeoliad.

Gall ychydig funudau a dreulir yn adolygu eich pensiwn heddiw wneud gwahaniaeth mawr i'ch dyfodol ariannol.

Ceir rhagor o wybodaeth am Wythnos Ymwybyddiaeth Pensiynau ar: <https://pensionawarenessday.com> ac <https://www.awarenessdays.com/awareness-days-calendar/pension-awareness-day/>

Cadwch yn Ddiogel Ar-lein: Diogelu Eich Pensiwn CPLIL

Mae llawer ohonom yn defnyddio gwasanaethau ar-lein i reoli agweddau pwysig o'n bywydau, gan gynnwys cael mynediad at wybodaeth am ein pensiwn. Drwy gymryd ychydig o gamau syml, gallwch helpu i ddiogelu eich cyfrif CPLIL a chadw eich gwybodaeth bersonol yn ddiogel.

Diogelwch eich cyfrif drwy ddefnyddio cyfrinair cryf ac unigryw a pheidio â'i rannu ag unrhyw un. Peidiwch ag ailddefnyddio'r un cyfrinair ar draws cyfrifon lluosog. Ystyriwch ddefnyddio rheolwr cyfrineiriau i'w cadw'n ddiogel.

Mae porth Cronfa Bensiwn Gwynedd hefyd yn defnyddio dilysu aml-ffactor (MFA), gyda chodau gwirio'n cael eu hanfon drwy e-bost neu neges destun.

Byddwch yn wiliadwrus o sgamiau pensiwn. Gall twyllwyr gysylltu â chi dros y ffôn, e-bost, neges destun neu gyfryngau cymdeithasol. Mae arwyddion rhybudd yn cynnwys addewidion o enillion uchel, pwysau i weithredu'n gyflym, cynigion o fynediad cynnar at bensiwn, neu geisiadau annisgwyl am wybodaeth bersonol.

Meddyliwch cyn clicio. Gwiriwch bob amser fod negeseuon e-bost a negeseuon sy'n honni eu bod oddi wrth eich darparwr pensiwn yn ddilys cyn agor dolenni, lawrlwytho atodiadau neu rannu gwybodaeth. Os ydych yn ansicr, cysylltwch â'ch gweinyddwr pensiwn gan ddefnyddio manylion cyswllt swyddogol.

Cadwch eich manylion cyswllt yn gyfredol, gan gynnwys eich cyfeiriad e-bost, cyfeiriad cartref a rhif ffôn, fel bod cyfathrebiadau pwysig am eich pensiwn yn eich cyrraedd yn ddiogel.

Defnyddiwch ddyfeisiau a chysylltiadau rhyngwyd diogel drwy gadw meddalwedd yn gyfredol, gosod diweddariadau diogelwch, defnyddio rhwydweithiau dibynadwy ac osgoi Wi-Fi cyhoeddus wrth gael mynediad at wybodaeth am eich pensiwn.

Yn olaf, **byddwch yn wybodus ac yn ofalus.** Os yw cynnig yn swnio'n rhy dda i fod yn wir, mae'n debyg ei fod. Gwiriwch bob amser fod cwmnïau ariannol wedi'u hawdurdodi gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA).

Stopiwch. Meddyliwch am Dwyll. Gall cymryd ychydig o ragofalon syml helpu i gadw eich pensiwn CPLIL a'ch gwybodaeth bersonol yn ddiogel.

Gall ychydig funudau o ofal helpu i ddiogelu eich cynilion pensiwn a'ch incwm ymddeol yn y dyfodol.

Dysgwch fwy: <https://stopthinkfraud.campaign.gov.uk>

Cysylltu â Chronfa Bensiwn Gwynedd

Am ragor o wybodaeth am eich buddion CPLIL, cyfraddau cyfrannu neu eich cyfrif pensiwn, cysylltwch â thîm Cronfa Bensiwn Gwynedd:



Cronfa Bensiwn Gwynedd, Stryd y Jêl, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1SH



(01286) 679982



pensiynau@gwynedd.llyw.cymru



Fy Mhensiwn Ar-lein - <https://aelodau.cronfabensiwnngwynedd.cymru/login>